

Bwydo Gwenyn



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government





The Food and Environment
Research Agency



Cyflwyniad

Daw bwyd naturiol nythfa o wenyn mêl o'r neithdar a'r pail y mae'r gwenyn gweithgar yn eu casglu ac yn eu cludo yn ôl i'r cwch gwenyn, naill ai i'w defnyddio ar unwaith neu i'w storio yng nghelloedd y crwybrau. Yn y wlad hon fel arfer mae digon o baill i ddiwallu anghenion y nythfa. Ni all gwenyn fyw ar baill yn unig a cheir adegau pan fydd yn rhaid i'r gwenynwr roi bwyd arall iddynt yn lle neithdar i'w hatal rhag newynu neu i sicrhau bod ganddynt gyflenwad digonol o fwyd fel arfer ar gyfer y gaeaf a dechrau'r gwanwyn ond hefyd ar adegau eraill o'r flwyddyn a hyd yn oed yn yr haf.

Gelwir y gweithrediad hwn yn 'fwydo', sy'n golygu sicrhau bod cyflenwad o fwyd addas a osodwyd mewn cynhwysydd addas ar gael i'r gwenyn gweithgar. Mae surop siwgr neu siwgr gwrthdro yn fwyd addas at y diben hwn a gelwir y cynhwysydd lle y'i gosodir yn declyn bwydo. Mae bwyd a dderbynnir gan wenyn naill ai'n cael ei fwyta neu ei storio, os caiff ei storio, gall gael ei fwyta yn ddiweddarach neu ei drosglwyddo i gelloedd eraill. Os bydd crwybrau epil stoc sy'n ehangu yn cynnwys cryn dipyn o surop wedi'i storio a bod neithdar yn dod i mewn, mae'r gwenynwr yn wynebu risg arbennig o uchel y caiff surop ei symud i fyny i'r rhan o'r cwch gwenyn lle y caiff mêl ei storio ('supers').

Teclynnau Bwydo

Mae'r rhan fwyaf o declynnau bwydo wedi'u cynllunio naill ai i'w gosod dros dwll bwydo yng ngorchudd mewnol y cwch gwenyn (bwrdd y goron) neu i gymryd lle'r gorchudd mewnol pan fydd y gwenyn yn cael eu bwydo.

Yn achos teclynnau bwydo 'araf' dim ond nifer fach o wenyn ar y tro a all gyrraedd y surop; mae teclynnau bwydo 'cyflym' yn gallu bwydo mwy o wenyn ar y tro.

Teclynnau bwydo cyflym

Mae sawl math o declyn bwydo cyflym ar gael ar y farchnad. Er enghraifft y cynhwysydd â chlwr metel neu blastig crwn, a osodir

dros y twll bwydo. Mae tiwb yn mynd drwy'r canol oddi tano i alluogi'r gwenyn i gyrraedd y surop. O amgylch y tiwb mae giard i atal y gwenyn rhag boddi yn y surop. Mae hefyd yn atal gwenyn rhag dianc pan dynnir clawr y teclyn bwydo. Mae gwahanol feintiau ar gael sy'n dal rhwng tua un a saith litr.

Neu gellir gosod teclynnau bwydo hirsgwar neu sgwâr mawr dros dro yn lle'r gorchudd mewnol. Mae'r rhain wedi'u gwneud o bren ac wedi'u selio â chwyr neu baent bitwmen. Dylech sicrhau bod y teclyn bwydo o'r maint cywir ar gyfer eich cwch gwenyn penodol chi. Mae gan y rhan fwyaf o fodolau ddyfais i atal y gwenyn rhag boddi ac mewn rhai mathau gellir addasu'r ddyfais hon i alluogi'r gwenynwr i reoli maint y twll y mae'n rhaid i'r gwenyn fynd drwyddo i gyrraedd y surop.

Teclynnau bwydo cyffwrdd

Gellir gwneud teclyn bwydo syml a boddhaol iawn o gasgen â chlwr lifer neu fwcet plastig sy'n addas ar gyfer bwyd sy'n dal 7 neu 14 pwys o fêl. Dylid gosod y clawr â'i du mewn tuag at i fyny ar floc o bren sy'n llai na diamedr y clawr ac yn ddyfnach na'i fflans (i'w atal rhag plygu a sicrhau bod y clawr yn parhau i ffitio'n dda ar y cynhwysydd), a dylid gwneud grŵp o 20-25 o fân dyllau ynddo, gan gadw'r tyllau o fewn cylch tua 60 mm ar ei draws. Mae hoelen fach (o'r math a ddefnyddir i binio cymalau fframiau) yn gwneud twll o'r maint cywir.

Mae'r math hwn o declyn bwydo hefyd ar gael yn fasnachol ar ffurf bwced mêl plastig â darn bach o rwyllwaith yng nghanol y clawr. Llenwir y cynhwysydd â surop a gwesgir y clawr yn dynn yn ei le. Mae'r teclyn bwydo, sydd â'i ben i lawr dros y twll bwydo, wedyn yn barod i'w ddefnyddio. Bydd tipyn bach o surop yn llifo allan o'r tyllau nes y caiff gwagle rhannol ei ffurfio uwchlaw lefel y cynnwys. Er mwyn osgoi gwastraffu'r surop hwn drwy ei ollwng dros y cwch gwenyn, mae'n well dal y teclyn bwydo dros fwcet am ychydig eiliadau cyn ei osod i lawr yn ofalus dros y twll bwydo. Dylid bob amser llenwi'r cynhwysydd hyd at lefel y clawr i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o surop yn diferu allan fel hyn ar y cychwyn. Wrth gwrs dylai'r cwch gwenyn sefyll ar sylfaen wastad.

Mae'n rhaid amgáu'r holl fathau hyn o declynnau bwydo o fewn blychau epil neu 'supers' gwag ychwanegol.

Teclynnau bwydo ffrâm

Mae teclynnau bwydo ffrâm yn ddelfrydol ar gyfer nythfeydd bach a gedwir mewn cnewyllyn ond fe'u defnyddir yn aml hefyd ar gyfer nythfeydd cyflawn. Bwriedir iddynt hongian y tu mewn i'r blwch epil a chymryd lle un o'r fframiau.

Gwneud surop

Dim ond siwgr gronynnog gwyn pur y dylid ei ddefnyddio i wneud surop. Er mwyn bwydo gwenyn yn yr hydref, mae'n well defnyddio surop trwchus, a wneir drwy ychwanegu wyth cilogram o siwgr at bum litr o ddŵr poeth a'i droi nes y bydd y cyfan o'r siwgr wedi toddi. Mae hyn yn rhoi crynhoad o 62 y cant o siwgr yn ôl pwysau. Mae ffordd syml iawn arall o wneud surop trwchus, heb ddefnyddio pwysau na mesurau, fel a ganlyn:

Rhowch y siwgr i gyd mewn llestr o faint addas; siglwch ef i ffurfio wyneb gwastad a marciwch lefel y siwgr yn y llestr. Arllwyswch ddŵr poeth i mewn i'r llestr, gan ei droi wrth i'r siwgr doddi, a llenwch ef nes y bydd yr hylif yn cyrraedd lefel ychydig yn uwch na'r marc sy'n nodi lefel y siwgr sych. Parhewch i'w droi nes y bydd y cyfan o'r siwgr wedi toddi.

Mae'n wastraffus bwydo gwenyn â surop sy'n cynnwys siwgr heb ei doddi, am na allant gymryd crisialau sy'n setlo ar waelod teclyn bwydo ac os defnyddir teclyn bwydo cyswllt â'i ben i waered, gall y crisialau gau'r tyllau yn llwyr. Fodd bynnag, nid oes angen gwastraffu tanwydd na llosgi'r siwgr, o bosibl, drwy ferwi'r surop; gan ddefnyddio'r naill ddull neu'r llall a nodir uchod gellir cael hylif cyflawn drwy ei droi yn unig - ac nid oes angen oeri'r hylif cymaint cyn y bydd y surop yn barod i'w ddefnyddio.

Ar gyfer bwydo gwenyn yn y gwanwyn gellir defnyddio surop gwannach, a wneir drwy ychwanegu pedwar cilogram o siwgr at bum litr o ddŵr. Mantais y dull hwn yw ei fod yn arbed y gwenyn rhag gwneud llawer o deithiau i gasglu ddŵr i wanhau'r surop cyn ei fwydo i'r epil.



Bwydo gwenyn yn yr hydref

Wrth baratoi ar gyfer tynnu'r cnwd mêl o'r cwch gwenyn ar ddiwedd y prif lif o neithdar, dylid archwilio pob nythfa i weld faint o fêl a phail sydd yn y crwybrau epil. Mewn rhai tymhorau, mae'r gwenyn yn stocio'r crwybrau epil â mêl cyn iddynt lenwi'r 'supers'. Mewn tymhorau eraill, gall bron y cyfan o'r mêl gael ei storio yn y 'supers', gan adael y crwybrau epil fwy neu lai yn wag; felly ni ddylid byth cymryd yn ganiataol, os yw'r 'supers' yn llawn iawn, fod digon o fwyd o reidrwydd yn y siambr epil i gynnal y nythfa yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn.

Ymhell cyn i'r gaeaf ddod mae angen i'r nythfa fod ag 16-18kg o fwyd wedi'i selio yn y crwybrau. Diben bwydo gwenyn yn yr hydref yw cyflenwi'r surop siwgr sydd ei angen i sicrhau bod o leiaf 16-18kg o fwyd wedi'i storio yn y crwybrau.

Wrth amcangyfrif faint o fwyd sydd wedi'i storio yn y cychod gwenyn, gellir cymryd bod crwybr dwfn sy'n cydymffurfio â'r Safon Brydeinig ac sy'n llawn iawn ar y ddwy ochr yn cynnwys dau gilogram; mae crwybr bas yn cynnwys 1.4 kg. Dylid ystyried bod pwysau'r bwyd ychwanegol sydd wedi'i storio ar ffurf surop siwgr yn cyfateb i bwysau'r siwgr yn y surop ac nid cyfanswm pwysau'r siwgr a'r dŵr. Mae gwenyn yn cael eu bwydo â surop yn ystod ail hanner mis Medi. Os rhoddir y surop iddynt cyn hynny, mae'n bosibl y caiff gormod o surop ei ddefnyddio i fagu epil, ac felly bydd llai o fwyd wedi'i storio yn y crwybrau a bydd mwy o weny i'w cynnal. Os rhoddir y surop i'r gwenyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, efallai y bydd y tywydd yn rhy oer i'r gwenyn gludo'r surop i lawr, ei aeddfedu a'i selio.

Gall surop heb ei selio eplesu yn y crwybrau ac achosi dysentri yn y gwenyn sy'n ei fwyta. Dylid bob amser defnyddio teclyn bwydo cyflym i fwydo gwenyn â surop yn yr hydref. Dylai fod yn ddigon mawr i ddal yr holl surop sydd ei angen yn ychwanegol at y bwyd naturiol sydd wedi'i storio, er mwyn i'r gwenyn allu ei gludo i lawr yn gyflym heb i unrhyw beth amharu arnynt. Mae bwydo gwenyn yn gyflym â surop trwchus yn ystod ail hanner mis Medi yn sicrhau'r cyflenwad mwyaf o fwyd wedi'i selio fesul cilogram o siwgr a ddefnyddir.

Weithiau mae'n well bwydo gwenyn yn yr hydref hyd yn oed pan fydd cyflenwad digonol o fêl gan y nythfa eisoes.

Paill

Caiff paill ei breserfio a'i selio gan y gwenyn i'w gadw mewn cyflwr da yn ystod y gaeaf ac mae'n rhan hanfodol o'r cyflenwad o fwyd sydd ei angen i fagu epil ar ddechrau'r gwanwyn. Mae paill nad yw'n cael ei selio yn yr hydref yn llwydo ac yn troi'n beledi caled, a dim ond drwy dynnu waliau'r celloedd i lawr y gall y gwenyn gael gwared ag ef.

Fel arfer maent yn ail-wneud y crwybr a ddifrodwyd i greu celloedd gwenyn gormes, felly yn aml y paill hwnnw nas seliwyd yn yr hydref yw achos crwybr hollt yn y gwanwyn canlynol. Pan wneir archwiliad olaf y tymor o nyth yr epil, os ceir bod gan y gwenyn ddigon o fêl wedi'i selio ond nad ymddengys eu bod yn selio'r paill dylid rhoi litr neu ddwy o surop iddynt.

Bydd hyn yn eu galluogi i gwblhau'r gwaith o baratoi eu cyflenwad bwyd ar gyfer y gaeaf. Fel arfer ni fydd prinder paill yn nyth yr epil ond weithiau mae'n bosibl y ceir nythfeydd a chanddynt grwybrau nad ydynt yn cynnwys fawr ddim paill, os o gwbl, tra gall fod gan eraill yn yr un wenynfa fwy na'r hyn sydd ei angen arnynt. Ar yr amod nad oes unrhyw glefydau yn y wenynfa, gellir cymryd crwybrau paill o'r nythfeydd hynny a all eu sbario a'u rhoi i'r rhai sy'n brin o baill.

Dylid bob amser rhoi'r cyfryw grwybrau wrth ochrau nyth yr epil a byth rhwng crwybrau sy'n cynnwys epil. Dylai fod tri neu bedwar crwybr paill da ym mhob nythfa.

Mêl Grug

Gall nythfeydd yr aethpwyd â hwy at y grug ddod yn ôl â siamrau epil yn llawn mêl grug. Fel bwyd gaeaf i wenyn, mae mêl grug weithiau yn anaddas am ei fod yn achosi problemau treulio a dysentri. Mae rhai gwenynwyr yn tynnu dau grwybr mêl allan, y rhai agosaf at y canol ar bob ochr, ac yn rhoi crwybrau gwag wedi'u tynnu yn eu lle.

Rhoddir surop i'r gwenyn wedyn mewn teclyn bwydo cyflym. Bydd y gwenyn yn llenwi'r ddau grwybr gwag â surop a defnyddir y cyflenwad yn y crwybrau hyn yn gyntaf fel bwyd gaeaf. Defnyddir y mêl grug yn ddiweddarach pan fydd y broses o fagu epil yn dechrau, ac mae'n addas at y diben hwn.

Bwydo gwenyn yn y gwanwyn

Ar un adeg ystyriwyd bod bwydo gwenyn â surop tenau yn y gwanwyn yn rhan angenrheidiol o'r gwaith arferol o reoli gwenyn ond mae'n debyg bod llawer o'r llwyddiant a briodolwyd iddo yn deillio o'r dŵr yn y surop yn hytrach na'r siwgr. Os nad oes unrhyw neithdar ffres, sydd ynddo'i hun yn cynnwys digon o ddŵr at y diben, mae'n rhaid i'r gwenyn ddod o hyd i ddŵr i wanbau cyflenwadau o fwyd wedi'i selio. Dylid darparu ffynhonnell addas o ddŵr ar ffurf 'ffynnon yfed', wedi'i lleoli tua 10 metr o'r cychod gwenyn, mewn man cysgodol a gaiff ei gynhesu gan heulwen y gwanwyn.

Serch hynny, weithiau mae angen annog nythfa i gynyddu'n gynt nag y byddai'n ei wneud petai'n cael ei gadael i wneud fel y myn – er enghraifft, nythfa, y bwriedir ei defnyddio yn ddiweddarach i fagu breninesau, neu un y bwriedir ei rhannu i gynyddu niferoedd. Cyhyd â bod ganddi ddigon o baill wedi'i storio i ddiwallu anghenion nyth epil sy'n ehangu, gellir bwydo'r cyfryw nythfa drwy roi tipyn bach o surop i'r gwenyn yn rheolaidd mewn teclyn bwydo cyffwrdd, (bydd tapio dros y rhan fwyaf o'r tyllau yng nghlawr y teclyn bwydo yn arafu'r broses fwydo) o ganol mis Mawrth neu ddechrau mis Ebrill nes y bydd y gwenyn yn gallu chwilio'n rhwydd am eu bwyd eu hunain.

Candi

Nid oes angen bwydo nythfeydd y bwriedir iddynt gynhyrchu mêl yn unig yn rheolaidd yn y gwanwyn. Yn yr hydref dylent gael digon o fwyd i sicrhau eu bod yn goroesi'r gaeaf a'r gwanwyn. Os ceir gaeaf mwyn a gwlyb efallai y bydd angen bwydo'r gwenyn â 'chandi' neu ffondant unwaith yng nghanol neu ar ddiwedd y gaeaf i'w hatal rhag newynu. Cofiwch y bydd y gwenyn, os cânt eu bwydo â chandi, yn hedfan llawer mwy o deithiau i gasglu dŵr i wanbau'r candi.

Bwydo haid

Mae gwenyn mewn haid yn mynd â chyflenwad o fêl gyda hwy pan fyddant yn mynd allan o'r nythfa wreiddiol, ond os bydd y tywydd yn troi'n arw yn fuan ar ôl i'r haid fynd i gwch gwenyn, bydd angen bwydo'r gwenyn â surop mewn teclyn bwydo cyflym er mwyn iddynt allu eu cynnal eu hunain nes y bydd y tywydd yn gwella.



Ni ddylid bwydo heidiau am y tri neu bedwar diwrnod cyntaf. Mae'n bosibl y bydd y mêl sy'n cael ei gludo gan yr haid wedi'i heintio a dylid ei ddefnyddio i wneud crwybrau. Os caiff yr haid ei rhoi mewn cwch gwenyn yn cynnwys fframiau â sylfaen gwyr mae'n rhaid i'r gwenyn gynhyrchu cryn dipyn o gwyr i dynnu'r sylfaen allan i greu'r crwybr. Hyd yn oed mewn tywydd da bydd bwyd ychwanegol ar ffurf galwyn o surop yn helpu'r nythfa newydd i ymsefydlu.

Bwydo cnewyllyn

Ychydig iawn o wenyn o oedran chwilota sydd gan gnewyllyn (nythfa fach sy'n cynnwys rhwng dau a phum crwybr o wenyn a ffurfiwyd o nythfa gryf) ac felly mae angen i'r gwenynwr ei fwydo yn gyson. Os na ellir rhoi crwybrau mêl iddo bydd angen rhoi surop iddo mewn teclyn bwydo cyffwrdd neu ffrâm. Er mwyn lleihau'r risg o ddwyn, ni ddylid bwydo cnewyll newydd eu gwneud sy'n dal o fewn pellter hedfan o'r stoc wreiddiol am y tri diwrnod cyntaf.

Amcangyfrif faint o'r cyflenwad bwyd sydd wedi'i fwyta

Os cymerwyd gofal yn ystod yr hydref i sicrhau bod gan bob nythfa gyflenwad da o fêl a phaill (gan gynnwys surop siwgr ychwanegol os oes angen) ni fydd y gwenyn yn mynd yn brin o fwyd yn ystod y gaeaf nac ar ddechrau'r gwanwyn. Fodd bynnag, mae'n hawdd amcangyfrif faint o gyflenwadau sydd ar ôl ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn drwy ddefnyddio clorian sbring sy'n gallu pwysu hyd at hanner cyfanswm pwysau'r cwch gwenyn.

Yn gyntaf caiff y glorian ei chysylltu â'r cwch gwenyn wrth fachyn o dan un ochr i'r llawr a'i chodi nes y bydd y cwch gwenyn ar ogwydd ychydig yn glir o'i waelod. Gwneir yr un peth eto gan gysylltu'r glorian â'r cwch gwenyn wrth fachyn o dan y llawr ar yr ochr arall. Pwysau'r cwch gwenyn yw cyfanswm y pwysau a nodwyd, hyd yn oed os nad yw cynnwys y cwch gwenyn wedi'i ddisbarthu'n wastad. Mae'n haws darllen y deial os defnyddir estyniad ar ffurf cadwyn i godi'r glorian at lefel y llygaid. Dylid cofnodi pwysau'r cwch gwenyn ar ôl gorffen bwydo'r gwenyn yn yr hydref. Gellir cymharu pwysau monitro a nodir ar ôl hynny â'r ffigur hwn.



Pan fydd pob un o'r cychod gwenyn mewn gwenynfa o'r un cynllun, gellir amcangyfrif pwysau'r cyflenwadau ym mhob cwch gwenyn os tynnir pwysau'r gwahanol rannau o'r cychod gwenyn (gan gynnwys crwybrau gwag wedi'u tynnu) a gofnodwyd yn flaenorol er mwyn cyfeirio atynt ynghyd â swm cyson, dyweder 5-6kg, i ddarparu ar gyfer y gwenyn, yr epil a'r paill, o gyfanswm y pwysau (yn ôl nifer y siambrau epil, 'supers', lifftiau, sy'n cael eu defnyddio ar y cwch gwenyn yn ystod y gaeaf).

Wrth i chi fagu profiad a dod yn gyfarwydd ag ef bydd codi'r cwch gwenyn â llaw, ar y naill ochr yn gyntaf ac wedyn ar y llall, yn rhoi amcangyfrif eithaf dibynadwy i chi o'r cyflenwad bwyd sydd y tu mewn iddo.

Bwydo mewn argyfwng

Mae'n arfer da peidio â gadael i'r cyflenwad bwyd fynd yn is na phum cilogram. Fodd bynnag, ni ellir atal hynny rhag digwydd bob tro, ac os bydd nythfa yn mynd yn brin o gyflenwad bwyd mae'n rhaid ei bwydo tra bydd yr argyfwng yn parhau. Os bydd pwysau neu 'deimlad' cwch gwenyn ar ddiwedd y gaeaf neu ddechrau'r gwanwyn yn codi unrhyw amheuon ynghylch faint o gyflenwad bwyd sydd ar ôl i'r gwenyn, dylid rhoi surop siwgr trwchus, twym i'r nythfa ar unwaith, mewn teclyn bwydo cyffwrdd er mwyn i'r gwenyn allu cymryd y surop yn rhwydd heb orfod symud yn bell o'r clwstwr.

Mae candi siwgr neu ffondant yn fath hwylus o fwyd ychwanegol a ddefnyddir yn y gwanwyn, am ei fod yn sicrhau na fydd y gwenyn yn newynu os ystyrir nad yw'r bwyd sydd ar ôl yn y crwybrau yn ddigonol i ddiwallu anghenion cynyddol y gwenyn o ran bwyd ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae ar gael ar ffurf cacennau neu flociau parod y gellir eu gosod dros y twll bwydo. Fodd bynnag, ni ddylid bwydo nythfeydd sy'n gaeafu â chandi yn lle eu bwydo â surop siwgr ym mis Medi.

Os bydd yn rhaid i'r gwenyn ddibynnu ar gyflenwad parhaol o gandï a osodir dros y twll bwydo yn yr hydref, ac a adewir yno dros y gaeaf, byddant yn gweithio arno yn ystod y cyfnod hwn yn lle clystyru'n dawl ar y crwybrau oddi tanodd. At hynny, bydd y candï yn amsugno lleithder o atmosffer y cwch gwenyn a bydd ei gynnwys dŵr yn cynyddu.



Yn y pen draw gallai hyn arwain at gyflwr dysentrig difrifol ymhlith y gwenyn, a allai ladd y nythfa gyfan, o ganlyniad i ormod o gynhyrchion gwastraff yn casglu yn system dreulio'r gwenyn.

Ni ddylid bwydo gwenyn â mêl: Mae'n creu cryn gynnwrf yn y nythfa ac mae'n debygol o ysgogi'r gwenyn i ddwyn. Mae candis siwgr gwrthdro a wnaed drwy broses wrth-droi â'r ensym infertas yn addas i wenyn. Dim ond mewn argyfwng y dylid bwydo gwenyn fel hyn ac yn syth ar ei ôl dylid bwydo'r gwenyn â surop siwgr trwchus mewn teclyn bwydo cyflym. Mewn tymor gwael gall nythfeydd fynd mor brin o gyflenwadau, hyd yn oed yn ystod yr haf, fel bod angen eu bwydo â surop mewn teclyn bwydo cyflym i'w hatal rhag newynu.

Gall nythfeydd, sy'n cynnwys nifer fawr o epil a gwenyn, fwyta'r bwyd sydd ganddynt wrth gefn yn gyflym os bydd prinder neithdar am unrhyw gyfnod o amser. Mewn argyfwng, os ceir bod y gwenyn yn gysglyd – am fod eu holl gyflenwadau bwyd wedi'u bwyta – gellir eu dadebru weithiau drwy ysgeintio surop twym i lawr rhwng y crwybrau neu drwy ei chwistrellu'n ysgafn dros y gwenyn gan ddefnyddio chwistrellydd llaw; dylid rhoi surop i'r gwenyn mewn teclyn bwydo cyflym unwaith y bydd y gwenyn wedi dadebru ddigon i'w gymryd.

Rhagofalon

Mae rhoi surop i wenyn mewn teclyn bwydo bob amser yn creu cynnwrf mewn nythfa, o leiaf dros dro; os bydd hyn yn digwydd yn ystod y dydd, ymhen fawr o dro gall gwenyn sy'n hedfan o amgylch yn chwilio am fwyd esgor ar gryn dipyn o ddwyn, yn enwedig yn yr hydref pan geir lluoedd niferus o wenyn o oedran chwilota ac nid oes fawr ddim neithdar i'w gasglu, os o gwbl.

Dylid lleihau lled pob mynedfa i'r cwch gwenyn i 25-50 mm, gan ddiwynnau faint o wenyn sydd yn y nythfeydd cyn dechrau eu bwydo a dylid archwilio'r cychod gwenyn yn ofalus i sicrhau nad oes unrhyw fylchau rhwng y gwahanol rannau y gallai gwenyn sy'n dwyn, neu gacwn, ffeindio eu ffordd drwyddynt. Ni ddylid rhoi'r surop i'r gwenyn tan yr hwyr, pan fydd llai o wenyn yn hedfan o amgylch i greu aflonyddwch yn y wenynfa.

Yn yr un modd, dylid ail-lenwi teclynnau bwydo gyda'r hwyr yn hytrach nag yn ystod y dydd.



75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5062 1
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2009
CMK-22-01-153
D6930809

Taflen 412
Diwygiwyd ac ailargraffwyd 2009.